COFNODION CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 25ain, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Aelod Lleol – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), Angharad Correia-Martins, Alun Jones

ABSENNOL

Dylan Llwyd

Croesawodd yr Is-gadeirydd bawb i'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant personol yn Eitem 5. Ysgol Aber-soch, gan ei fod yn cynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach.

2. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0831/39/LL	Cyfnewid adeiladwaith siale presennol am adeilad siale newydd – Pendraw, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad, gan fod yr adeilad bwriadedig yn fwy o faint ag edrychiad sinc iddo. Diffyg lle parcio hefyd.**
C19/0857/39/LL	Dymchwel bynglo ac adeilad allanol presennol ac adeiladu annedd deulawr newydd a phagoda (pafiliwn) â thirlunio cysylltiedig, parcio, mynedfa safle newydd a storfa bin – Palmyra, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad – mae cryn dipyn mwy o ran maint o gymharu â'r tai o'i amgylch a dderbyniodd ganiatâd i'w dymchwel a chodi rhai newydd yn eu lle. Mynegwyd hefyd y buasai'n creu cynsail i ehangu'r lleill.**

3. **CADARNHAU CYFRIFON – ARCHWILIAD ARIANNOL ALLANOL 2018 – 2019**

Derbyniwyd y ffurflen flynyddol oddi wrth BDO i'w chadarnhau cyn Medi 30ain. Codwyd y ddau fater a ganlyn yn yr adroddiad:

1. cymeradwyo'r ffurflen flynyddol (amryfusedd y Clerc heb nodi cyn ei hanfon)

2. Cylch Gorchwyl – mae gan y Cyngor bwyllgorau eraill ond, ni anfonodd unrhyw gylchoedd gorchwyl yn cynnwys unrhyw ddirprwyo awdurdod i'r pwyllgorau hyn. Nodir y dylid sefydlu un cyn gynted â phosibl neu o leiaf cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac arwyddodd yr Is-gadeirydd a'r Clerc y ffurflen. Mynegwyd, efallai mai chwilio am gamgymeriad wnaethpwyd ar ôl ymateb i'r ymholiadau cyn cwblhau'r archwiliad. Arddangosir yr hysbysiad bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio am bris rhesymol, yn unol â'r gofyn statudol.

4. **CEFNOGI YMGYRCH ANNIBYNIAETH I GYMRU**

Derbyniwyd ymholiad oddi wrth un o drethdalwyr y gymuned yn gofyn a fwriadai'r Cyngor drafod ymuno â'r ymgyrch gefnogi uchod fel sawl un arall yn y Gogledd. Derbyniwyd cais oddi wrth Aelod i'w gynnwys fel eitem ar raglen mis Medi'r Cyngor hefyd. Yn dilyn trafodaeth frwd, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cefnogi – pleidleisiodd pedwar o blaid ac ataliodd pedwar eu pleidlais.

5. **YSGOL ABER-SOCH**

Cafwyd trafodaeth am sefyllfa'r ysgol, yn arbennig mynegi pryder bod cynifer o blant y pentref yn mynychu ysgolion eraill megis Llanbedrog, Sarn Bach (cânt fws am ddim i fynd yno) a, hyd yn oed, rhai preifat ym Mangor. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid ei chefnogi fel adnodd pwysig i'r gymuned, yn arbennig o ran sefyllfa'r iaith Gymraeg ym mhentref Aber-soch. Mynegwyd, hefyd, y dylai Cyngor Gwynedd dalu i'w chynnal a'i chadw ar agor o ystyried yr elwa cymaint o drethi'r gymuned hon.

6. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Bwletin mis Awst***
Copi, er gwybodaeth. Argraffwyd manylion am Gymunedau Iach, ap Cerdded ar Lwybr yr Arfordir sy'n llawn syniadau am weithgareddau i'r teulu eu gwneud, lawrlwythwyd y canllaw newydd o arferion cyfrifyddu statudol a'r trefniadau llywodraethu priodol.

ii) ***Cymorth Ariannol i Eglwysi***
Copi, er gwybodaeth, o rymoedd Cynghorau i ddarparu cymorth ariannol i eglwysi o unrhyw enwad.

iii) ***Swyddfa Archwilio Cymru***

a) ***Rhaglen Digwyddiadau Arfer Da***
Copi, er gwybodaeth o ddigwyddiadau'r flwyddyn ariannol bresennol.

b) ***Gwireddu Cymru Gydradd***
Hysbyseb digwyddiadau, er gwybodaeth, sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

iv) ***Sesiynau Hyfforddi***
Gwybodaeth am hyfforddiant ULlC rhwng mis Medi a diwedd y flwyddyn.

v) ***Prosiect y Goedwig Hir – Ap am Ddim i Gynghorau Cymuned a Thref Asesu Gwrychoedd***
Ap sy'n galluogi arolygu gwrychoedd a nodi eu rhywogaethau yn gyflym a hawdd fel rhan o'r uchod. Bwriedir arolygu dros 50,000 metr o wrychoedd

ledled Cymru i gael gwybodaeth hanfodol am eu cyflwr a'r rhywogaethau coed sydd ynddynt. Gallai fod yn rhan o ofynion y Ddeddf yr Amgylchedd (gweler isod).

vi) ***Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd***
Arolwg i ddarganfod mwy am ddefnydd y sector o fecanweithiau digidol i ymgysylltu, cwrdd a rhannu gwybodaeth â chymunedau – dyddiad cau dydd Gwener, Tachwedd 8fed.

vii) ***Arolwg Cynllunio***
Ymgynghoriad cynllunio mawr ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – daw i ben Medi 30ain.

viii) ***Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol***
Dogfennau am yr uchod, er gwybodaeth.

ix) ***Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 – Dyletswydd Cynghorau Cymuned a Thref dan Adran 6***
Mae'n ofynnol paratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn a fwriedir ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd o Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn meysydd gwaith presennol.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Bwletin Cyfoeth Naturiol Cymru – Cofrestrau Electronig ar gyfer Tir Comin yng Nghymru***
Datblygir yr uchod (y gyntaf o'i math yn y DU) a'r cam nesaf fydd trosglwyddo'r 25,000 tudalen a 12,300 map i system electronig o gyfriflyfrau a mapiau mawr.

c) **Ysgol Foel Gron**
Cerdyn diolch am y trac beiciau oddi wrth y disgyblion.

ch) **Mantell Gwynedd – Cynhadledd Flynyddol a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch Sylfaenol**
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir ar Dachwedd 13eg a'r 14eg.

d) **Delwedd Cyf. – Tystysgrif SSL ar eich Gwefan a Heart Internet**
Penderfynwyd nad yw'r Cyngor angen y dystysgrif.
Gwnâ Heart Internet welliannau sylweddol i'r gwasanaeth e-bost a ddaw'n fyw ar Hydref 1af. Angen newid porth iddo weithio'n iawn – angen ymholi ymhellach sut mae gwneud.

dd) **Aelod Lleol – Fferyllfa Aber-soch**
Copi, er gwybodaeth, o restr cwynion a phryderon a anfonwyd at gwmni fferyllfa Rowlands parthed y gwasanaeth a gynigia yn Aber-soch. Deallwyd y derbyniodd Cyngor Iechyd Cymunedol ateb ond, nid yr Aelod Lleol er mai ef a'i anfonodd. Mynegwyd siomedigaeth am y diffyg gweithwyr Cymraeg eu hiaith sydd yno hefyd.

e) **Arweinydd Rhaglenni Gwledig – Her Cymunedau Mentrus**
Dogfennau parthed yr uchod er gwybodaeth.

f) **Dysgu Cymraeg – Hyrwyddo Cyrsiau Cymraeg**
Cais i hysbysebu'r uchod.

ff) **Cofrestru Etholwyr – Canfaswyr Etholiadol**
Hysbysebu'r uchod er gwybodaeth.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C19/0539/39/LL	Estyniad unllawr blaen, ochr a chefn ac ymestyn modurdy i gynnwys llawr cyntaf **–** Caldy, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0579/39/LL	Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad allanol yn rhan o'r tŷ
C19/0580/39/CR	Gorphwysfa, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau**
C19/0739/39/LL	Creu pwll ar gyfer bywyd gwyllt **–** Elim, Lôn Garmon, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 9fed, 2019 am saith o'r gloch